Estyn

*Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar:

# Tŷ Bronllys

## Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2014

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Mae'n ofynnol i ymweliadau monitro blynyddol Estyn ag ysgolion annibynnol ac ysgolion arbennig annibynnol yng Nghymru adrodd ar b'un a yw rheoliadau safonau cofrestru Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC) ar gyfer ysgolion annibynnol yn cael eu bodloni, a lle nad ydynt yn cael eu bodloni, beth y mae angen iddynt ei wneud er mwyn cydymffurfio.

Mae mwy o wybodaeth ynghylch y rheoliadau ar gyfer yr ymweliad monitro hwn i'w gweld yn y dogfennau canlynol:

- Llywodraeth Cynulliad Cymru: *Llawlyfr Gwybodaeth a Chofrestru Ysgolion Annibynnol*, Ebrill 2004; a
- Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 37/94: *Ysgolion annibynnol sy'n derbyn disgyblion ag anghenion addysgol arbennig*:
  - paragraffau 1-8: caniatáu/dileu cymeradwyaeth;
  - paragraff 42: newidiadau i gymeriad, rheolaeth neu ofalaeth ar yr ysgol; a
  - 37/94 paragraff 43: gwahaniaethau sylweddol o'r nifer a gymeradwywyd.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 25/04/2014**

## Cyd-destun

Mae Tŷ Bronllys yn ysgol arbennig annibynnol wedi'i lleoli mewn ardal wledig gerllaw pentref Bronllys ym Mhowys. Mae'r ysgol yn darparu addysg i ddisgyblion 8 i 19 oed sydd wedi cael diagnosis o anhwylder ar y sbectrwm awtistig.

Nod datganedig yr ysgol yw darparu amgylchedd diogel, hapus ac ysgogol i blant a phobl ifanc ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig, o fewn fframwaith o ddysgu gydol oes.

Ar hyn o bryd, mae saith disgybl ar gofrestr yr ysgol, y mae bron pob un ohonynt yn fechgyn. Maent oll wedi'u gosod yno gan awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae bron pob un o'r disgyblion yn preswylio yn y cartref plant cofrestredig ar y safle, sy'n cael ei redeg gan y perchennog. Mae gan bob un o'r disgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA).

Yn Ebrill 2011, bu newid i berchnogaeth yr ysgol ac, yn Ionawr 2012, fe wnaeth pennaeth newydd ymgymryd â'i swydd. Yn ystod yr ymweliad monitro hwn, roedd trefniadau staffio dros dro ar waith, gyda chydweithwyr profiadol o'r sefydliad ehangach yn cyflenwi yn absenoldeb y ddau athro dosbarth.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

**Dyma gryfderau'r ysgol:**

- mae'r disgyblion yn gallu manteisio'n dda ar amrywiaeth fawr o brofiadau dysgu, gan gynnwys Cynllun Gwobr Dug Caeredin, Ymddiriedolaeth Touch, a gweithgareddau menter fel caffi'r myfyrwyr. Maent yn ennill cymwysterau priodol mewn cyrsiau achrededig;
- mae'r disgyblion yn defnyddio system cyfnewid lluniau yn effeithiol iawn i fynegi eu hanghenion. Mae'r system wedi'i hymgorffori'n dda yng ngwaith yr ysgol o ddydd i ddydd ac mae'r disgyblion yn gwerthfawrogi'r annibyniaeth a gânt;
- mae'r ystafelloedd dosbarth a'r gofod awyr agored yn darparu amgylchedd dysgu priodol gydag adnoddau addas;
- mae gwasanaethau cymorth arbenigol fel therapi galwedigaethol, therapi iaith a lleferydd a therapi cerdd yn gwneud cyfraniad pwysig at raglenni dysgu'r holl ddisgyblion;
- mae system rheoli perfformiad wedi'i strwythuro'n dda sy'n cynnwys arsylwadau rheolaidd ar wersi ac sy'n nodi meysydd lle mae angen i'r staff wella;
- mae ffeiliau cofnod manwl a threfnus ar gyfer pob disgybl unigol, sy'n cynnwys gwybodaeth am eu cynnydd, anghenion gofal, anghenion meddygol, asesiadau risg a chynlluniau addysg unigol (CAUau); ac
- mae gan arweinwyr ymrwymiad cadarn i wella'r ysgol yn barhaus. Mae adroddiad hunanarfarnu manwl sy'n nodi targedau priodol ar gyfer gwella'r ysgol.

## Meysydd i'w datblygu

**Dyma feysydd yr ysgol i'w datblygu:**

- er bod arsylwadau gwersi a phrosesau rheoli perfformiad yn canolbwyntio'n dda ar ddulliau o addysgu, nid yw'r ffocws ar y safonau sy'n cael eu cyflawni gan ddisgyblion wedi'i ddatblygu'n ddigonol;
- mae cynllun gwella'r ysgol yn cysylltu'n dda â'r adroddiad hunanarfarnu. Mae'n blaenoriaethu meysydd i'w datblygu, yn nodi'r staff sy'n gyfrifol am roi camau ar waith ac yn gosod amserlenni realistig. Fodd bynnag, nid yw'n nodi'r adnoddau sy'n ofynnol i gwblhau'r camau;
- mae staff wedi ymweld ag ysgolion eraill i nodi a rhannu arfer dda. Fodd bynnag, nid yw'r ymweliadau hyn bob amser yn arwain at ddysgu y gellir ei roi ar waith yn yr ysgol; ac
- mae cofnodi cynnydd disgyblion o ddydd i ddydd yn gyffredinol iawn ac nid yw'n rhoi cofnod digon clir o'r camau bach a wna disgyblion.

## Argymhellion

A1 Gwella'r broses arsylwi ar wersi trwy gynnwys ffocws cliriach ar y safonau sy'n cael eu cyflawni gan ddisgyblion

A2 Cryfhau cynllun gwella'r ysgol trwy gynnwys y cymorth a'r adnoddau sy'n ofynnol i fynd i'r afael â phob cam

A3 Cynnig ffocws mwy penodol ar gyfer ymweliadau ag ysgolion eraill fel y gall staff nodi arfer dda i wella deilliannau i ddisgyblion yn Nhŷ Bronllys

A4 Sicrhau bod cofnodi cynnydd disgyblion o ddydd i ddydd yn nodi gwybodaeth fwy penodol

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygu blaenorol

**Argymhelliad 1: Sicrhau bod staff cymorth yn yr ystafell ddosbarth yn hyderus yn eu rolau ac yn ymgysylltu â disgyblion yn rhagweithiol i gefnogi'r athro**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae staff yn darparu cymorth ymddygiad a dysgu effeithiol ar gyfer disgyblion ac yn gweithredu cynlluniau dysgu yn dda. Dangosant ddealltwriaeth dda o anghenion a galluoedd unigol y disgyblion a darparant adborth defnyddiol i ddisgyblion ynghylch cynnydd yn erbyn y targedau sydd wedi'u cyflwyno yn y CAUau.

**Argymhelliad 2: Sicrhau bod disgyblion yn ennill cymwysterau mewn cyrsiau achrededig**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Yn 2013, enillodd yr holl ddisgyblion gymwysterau priodol mewn ystod o gyrsiau wedi'u hachredu, fel ASDAN (Gorwelion Newydd, Her Pontio, Tuag at Annibyniaeth, Llythrennedd a Rhifedd mewn Bywyd Bob Dydd), AQA a Gwobr Efydd Dug Caeredin.

Cyflawnodd tri disgybl Wobr Efydd Dug Caeredin yn 2013. Mae dau o'r rhain bellach wedi mynd ymlaen i'r Wobr Arian.

Mae pob disgybl wedi'i gofrestru ar gyrsiau achrededig ac wedi cwblhau unedau tuag at y cymwysterau.

**Argymhelliad 3: Mireinio gweithdrefnau asesu ymhellach i roi mwy o ystyriaeth i'r camau bychan yng nghynnydd pob disgybl a rhoi mwy o wybodaeth am gynnydd disgyblion mwy abl**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae'r ysgol yn defnyddio system gadarn o asesu cynnydd disgyblion sydd wedi'i seilio ar gynlluniau asesu cyhoeddedig ac olrhain mewnol yn ôl targedau'r CAUau. Cyflwynwyd cynllun asesu newydd ym mis Tachwedd ac mae cynlluniau ar waith i ddefnyddio hwn bob tymor.

Mae'r ysgol yn monitro cynnydd disgyblion yn erbyn y targedau yn eu CAUau yn agos. Caiff CAUau eu hadolygu bob 6 mis, yn Ionawr a Gorffennaf. Mae staff yn defnyddio ffurflen i gofnodi cynnydd disgyblion o ddydd i ddydd yn ôl eu targedau. Fodd bynnag, mae llawer o sylwadau yn rhy gyffredinol ac nid ydynt yn rhoi digon o fanylion. Mae'r pennaeth yn monitro'r cofnodion hyn i sicrhau bod sylwadau staff yn cysylltu'n briodol â thargedau disgyblion.

**Argymhelliad 4: Datblygu dull mwy strwythuredig o baratoi myfyrwyr ar gyfer y pontio i leoliadau yn y dyfodol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol i ddarpar ddisgyblion a'u hathrawon ymweld â Tŷ Bronllys. Mae pob disgybl yn cael llyfryn 'lleoliad newydd' pan fyddant yn ymuno â'r ysgol a hefyd cânt lyfryn am eu lleoliad nesaf pan fydd hi'n bryd iddynt adael.

Mae'r holl ddisgyblion yn mynychu sesiynau rheolaidd sy'n eu helpu nhw i baratoi ar gyfer y dyfodol. Dysgant am y gwahanol swyddi mae pobl yn eu gwneud a nodant eu meysydd o ddiddordeb eu hunain. Mae disgyblion yn cadw ac yn diweddaru eu ffeiliau cynnydd ar gyfer pontio yn ystod y gwersi hyn i sicrhau bod popeth yn barod pe bai trosglwyddiad yn cael ei drefnu ar fyr rybudd. Caiff cynnwys y ffeiliau hyn ei lunio'n dda ac ar lefel briodol i fodloni anghenion dysgu disgyblion.

Mae'r ysgol yn cadw cofnodion manwl o gyfarfodydd ynghylch trosglwyddiadau disgyblion sy'n nodi'n glir y camau sydd wedi'u cytuno a'r bobl sy'n gyfrifol. Mae'r ysgol yn trefnu amserlen er mwyn i ddisgyblion ymweld â'u lleoliadau nesaf ac i staff o'r lleoliadau newydd ymweld â Thŷ Bronllys, cyn eu trosglwyddo.

**Argymhelliad 5: Ymestyn cyfleoedd i'r holl staff arsylwi a rhannu arfer dda**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae'r holl staff addysg wedi ymestyn eu profiad trwy gynnal o leiaf un ymweliad i arsylwi arfer mewn ysgolion eraill. Mae hyn wedi cynnwys ymweliadau â dwy ysgol arbennig, unedau mewn ysgolion a gynhelir ac uned cyfeirio disgyblion. Yn ogystal, mae staff wedi cael ychydig o gyfleoedd i arsylwi arfer yn ysgol a choleg arall y perchennog. Fodd bynnag, nid yw'r ymweliadau hyn bob amser yn arwain at ddysgu sy'n berthnasol i Dŷ Bronllys.

Mae system briodol ar gyfer arsylwadau gwersi, er bod y ffocws yn tueddu i fod ar addysgu, gyda llai o wybodaeth am y safonau mae disgyblion yn eu cyflawni. Mae'r pennaeth yn cyflawni arsylwadau gwersi ac yn rhoi adborth unigol i staff. Mae athrawon yn arsylwi cynorthwywyr cymorth dysgu ac yn cofnodi'r deilliannau. Rhennir y wybodaeth hon gyda chynorthwywyr cymorth dysgu ac fe'i defnyddir i osod targedau ar gyfer gwella.

Mae'r pennaeth yn cwblhau archwiliad mewnol o ystafelloedd dosbarth bob tymor i sicrhau bod yr amgylchedd dysgu yn bodloni disgwyliadau. Eir i'r afael â meysydd i'w gwella yn ddiymdroi.

**Argymhelliad 6: Cyfnerthu'r gwaith da a wnaeth yr ysgol eisoes i wneud gwelliannau a pharhau i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau allweddol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae gan arweinwyr ymrwymiad cadarn i wella'r ysgol yn barhaus. Mae proses hunanarfarnu effeithiol sy'n defnyddio tystiolaeth o ystod eang o weithdrefnau sicrhau ansawdd ac sy'n ystyried barn staff, rhieni a disgyblion.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu'n gosod blaenoriaethau clir ar gyfer gwella'r ysgol. Mae'r ysgol wedi ymateb yn dda i argymhellion yr adroddiad arolygu diwethaf.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

### Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 5: Adeiladau a llety preswyl mewn ysgolion

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

### Safon 6: Darparu gwybodaeth

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

### Safon 7: Y modd y dylid ymdrin â chwynion

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, efallai byddai Cynulliad Cenedlaethol Cymru am ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Tŷ Bronllys |
| **Rhif yr ysgol** | 6666047 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 18 a 19 Chwefror 2014 |
| **Perchennog** | Orbis Education and Care Ltd |
| **Staff** | Pennaeth<br>2 athro<br>2 gynorthwyydd cymorth dysgu |
| **Nifer y disgyblion** | 7 |
| **Darpariaeth** | Preswyl 52 Wythnos |
| **Math o angen addysgol arbennig (AAA) y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Anhwylderau ar y sbectrwm awtistig |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | 1 Tachwedd 2011 |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 6 Mawrth 2013 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | Mehefin 2013 |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| **Arolygydd Cofnodol** | Anthony Mulcahy |